Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Cogydd**

Lleoliad: **Cartref Preswyl Dementia Cwrt Mytton**

Cyfarwyddiaeth: **Gwasanaethau Cymdeithasol**

Swydd Rhif: **BG03135**

Cyflog: **Gradd 4 (£22,369 - £24,496 pro rata/y flwyddyn)**

Oriau: **32**

Contract: **Parhaol**

Crynodeb Swydd

Edrych am swydd hwyliog a gwerth chweil fel cogydd? Dewch i ymuno â'n tîm yng nghartref preswyl Cwrt Mytton a'n helpu i sicrhau fod ein preswylwyr yn cael bwyd da ac yn hapus!

Yng Nghwrt Mytton rydym yn credu mai cegin yw calon y cartref. Mae llesiant, cysur ac anghenion ein preswylwyr yn hollbwysig, a rydym yn ymroddedig i ddarparu'r safonau gofal uchaf posibl.

Os credwch fod y sgiliau a'r agwedd angenrheidiol gennych i ragori fel Cogydd yng Nghwrt Mytton, anogwn chi i wneud cais ac ymuno â'n tîm. Gallai hyn fod y cyfle perffaith i chi gael dechrau da i'ch gyrfa gyda ni. Gwnewch gais heddiw a chymryd y cam cyntaf tuag at yrfa werth chweil yn ein hamgylchedd cynnes a chroesawgar.

Hysbyseb Lawn

Mae Cwrt Mytton yn ymfalchïo yn ein amgylchedd cynnes a chroesawgar ac mae darparu maeth rhagorol yn rhan allweddol o'r gofal a gynigiwn. Fel cogydd, bydd gennych rôl bwysig wrth sicrhau fod ein preswylwyr yn cael profiad bwyta ansawdd uchel sy'n diwallu eu hanghenion maeth. Byddwch yn rhoi amser i ddod i adnabod ein preswylwyr a'u teuluoedd, fel y gallwch ddarparu ar gyfer eu dewisiadau personol fel eu bod yn mwynhau eu profiad bwyta gymaint ag sy'n bosibl.

Mae ymuno â'n tîm yn golygu dod yn rhan o'n teulu estynedig. Byddwch yn gweithio wrth ochr aelodau eraill ymroddedig o'r tîm sy'n rhannu eich angerdd dros ddarparu gofal, cynhesrwydd a charedigrwydd i bawb sy'n byw a gweithio yn ein cartref. I gael eich ystyried ar gyfer y swydd hon, mae'n rhaid i chi fod â phrofiad blaenorol o weithio mewn cegin broffesiynol, yn cynnwys arlwyo ar gyfer dietau arbenigol a darparu prydau bwyd i grwpiau mawr o bobl. Mae angen i chi hefyd fod â Thystysgrif Sylfaenol Hylendid Bwyd, yn

ogystal â NVQ lefel 1 neu 2 mewn arlwyo a chymwysterau lefel 2 a 3 mewn diogelwch bwyd.

Amdanoch chi
Edrychwn am unigolyn angerddol gyda chariad gwirioneddol at fwyd a thalent ar gyfer paratoi a chyflwyno prydau bwyd i'r safon uchaf posibl. Fel cogydd, byddwch yn dod i adnabod ein preswylwyr oedrannus ac yn rhoi amser i ddeall eu hanghenion unigryw, a hefyd fod yn aelod gweithgar a gwerthfawr o'n tîm. Bydd eich gallu i weithio'n dda dan bwysau, ynghyd â sgiliau cyfathrebu effeithol a natur gadarnhaol a brwdfrydig yn allweddol i'ch llwyddiant yn y swydd yma.

Sgiliau rhyngbersonol rhagorol
Bydd gennych y gallu i gyfathrebu'n effeithol a meithrin perthynas gref. Rydych yn gefnogol, empathetig a charedig yn eich ymwneud gydag eraill.

Natur garedig
Mae gennych angerdd wirioneddol i wella bywydau pobl a chymryd dull gweithredu sy'n canoli ar y person. Rydych yn frwdfrydig am gael effaith gadarnhaol ar y rhai y gofalwch amdanynt.

Agwedd gyda chyfeiriad tîm
Rydych yn gweithio'n effeithiol mewn amgylchedd tîm ac yn mwynhau cydweithio gydag unigolion o'r un anian. Mae gwaith tîm yn bwysig i chi a rydych yn deall pwysigrwydd cydweithio tuag at nodau cyffredin.

Hyblygrwydd
Rydych yn ffynnu mewn amgylchedd sy'n symud yn gyflym ac yn medru meddwl ar eich traed i addasu'n gyflym i newid mewn sefyllfaoedd. Rydych yn aros yn dawel dan bwysau ac yn medru cynnal eich ffocws a'ch proffesiynoldeb wrth drin tasgau lluosog.

Dyma rai o'r buddion yr ydych yn eu mwynhau fel aelod gwerthfawr o'n tîm:

- Derbyn hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i gynyddu eich sgiliau a gwybodaeth
- Cynefino cynhwysfawr fydd yn rhoi'r hyder i chi ymgymryd â'ch swydd
- Mynediad i gynllun pensiwn rhagorol
- Hawl i gael gwyliau blynyddol hael

Hoffech chi wybod mwy a gwneud cais?

Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person cyn clicio 'Gwneud Cais' i ddechrau'r ffurflen gais ar-lein.

Os hoffech drafodaeth agored ac anffurfiol am y swydd, cysylltwch â:
Joanne Hawkins | 01495 217736 | Joanne.Hawkins@blaenau-gwent.gov.uk

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **01.06.2023**
Dyddiad Cyfweliadau: **I'w gadarnhau**